



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plasrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / Headteacher: Mr R. Clive Williams

COFNODION Y CYNGOR YSGOL

Mai 17eg, 2013

Presennol

*Robert Gorman, Sara Fflur Griffiths,
Dylan Skym, Gwenllian Thomas,
Rhianedd Owen, Sara ap Robert John,
Erin Davies, Llŷr Eirug, Dylan James-Williams
Mrs Williams, Mrs Llwyd*

Absennol

Elen Llywelyn Evans

Agenda

1. Croesawu pawb i'r cyfarfod

Croesawodd Robert Gorman, Cadeirydd y Cyngor Ysgol, bawb i'r cyfarfod.

2. Trafod materion sy'n codi yn y dosbarthiadau:

Gofynnodd Robert os oedd unrhyw faterion wedi codi ymhlith ein cyd-ddisgyblion yn y dosbarthiadau ers y cyfarfod diwethaf.

Trafodwyd y canlynol:

- **Biniau sbwriel** – mae pawb yn cytuno fod angen mwy o finiau sbwriel ar yr iard amser chwarae, ac yn enwedig ar y cae gan nad oes biniau yn agos iawn yno ac mae'n rhaid rhedeg yn bell er mwyn rhoi sbwriel yn y bin ar ben pella'r iard. Byddwn yn cydweithio gyda'r Pwyllgor Eco a Mr Williams er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa hon.

- **Cyflwr y toiledau** – unwaith eto, trafodwyd y ffaith fod cyflwr toiledau'r merched, yn enwedig, yn gallu bod yn wael gan nad yw pawb yn eu parchu fel y dylen nhw (llawer o bapur toiled wedi'i daflu ar y llawr, ayyb). Bydd Sara Fflur a Gwenllian yn cael gair gyda merched Bl.3 – 6, gyda chymorth Mrs Llwyd a Mrs Williams, er mwyn eu hannog i barchu'r toiledau bob amser.

3. Bocs Syniadau

Edrychodd Robert a Dylan yn y Bocs Syniadau – un awgrym oedd yno, sef cael stondin smwddis neu lolis rhew ar yr iard yn ystod misoedd yr haf.

4. **Ymweliad Comenius** – trafodwyd trefniadau ymweliad yr athrawon o'n partner-ysgolion o Ewrop yr wythnos nesaf, gan gadarnhau rôl y Cyngor Ysgol yn yr ymweliad. Bydd aelodau Bl.6 o'r Cyngor Ysgol yn darllen gair o groeso yn y gwasanaeth ysgol gyfan ar fore dydd lau, Mai'r 23ain, ac yna byddant yn cynorthwyo Mr Williams i ddangos yr ymwelwyr o gwmpas yr ysgol ac i baratoi te croeso iddyn nhw yn y

neuadd. Bydd rhai o aelodau eraill y Cyngor Ysgol hefyd yn perfformio gyda'r côr a/neu'r grŵp dawnsio cyfrwng cymysg o flaen yr ymwelwyr.

5. Gweithdy gwrth-hiliaeth

Rhannodd Robert, Sara Fflur, Gwenllian a Dylan, aelodau Blwyddyn 6 y Cyngor Ysgol, eu profiadau o fynychu gweithdy gwrth-hiliaeth yn gynharach ym mis Mai.

Diolchodd Robert i bawb am ddod cyn cloi'r cyfarfod.

Dyddiad y cyfarfod nesaf

Dyddiad y cyfarfod nesaf fydd Mehefin 4ydd 2013

Cofnodion gan Sara a Gwenllian (Ysgrifenyddes ac Is-Gadeiryddes).